

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 5(13C) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

2024 Rhif (Cy.)

ARDRETHU A PHRISIO,  
CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig  
(Lluosydd) (Cymru) 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

O ran Cymru, cyfrifir y lluosydd ardrethu annomestig yn unol â'r fformiwla ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") ar gyfer pob blwyddyn ariannol pan nad oes rhestrau ardrethu yn cael eu llunio. Nid oes rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau â 1 Ebrill 2024 ("y flwyddyn o dan sylw").

Mae'r fformiwla ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn cynnwys eitemau B ac C. Eitem B yw'r mynegai prisiau defnyddwyr ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw, ac eitem C yw'r mynegai prisiau defnyddwyr ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol sy'n dod cyn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw. Mae paragraff 5(13A) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio, diddymu neu ddatgymhwysu is-baragraffau penodol yn Atodlen 7 i Ddeddf 1988, er mwyn rhoi cyfeiriadau at fynegai arall yn lle cyfeiriadau at y mynegai prisiau defnyddwyr, neu i bennu neu ddisgrifio ffigur ar gyfer eitemau B a/neu C.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau â 1 Ebrill 2024, ac yn datgymhwysu paragraff 5(5A) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn pennu mai'r ffigur ar gyfer eitem B yw 130.0. Effaith hyn yw bod y lluosydd ardrethu annomestig yn cynyddu gan 5% o'i gymharu â'r ffigur hwnnw a gyfrifwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Heb y Rheoliadau hyn,

byddai'n cynyddu gan 6.7% yn ddiodyn yn unol â'r newid yn y mynegai prisiau defnyddwyr.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 5(13C) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2024 Rhif (Cy. )**

**ARDRETHU A PHRSIO,  
CYMRU**

**Rheoliadau Ardrethu Annomestig  
(Lluosydd) (Cymru) 2024**

*Gwnaed*

\*\*\*

*Yn dod i rym*

*23 Chwefror 2024*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraff 5(13A) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(1).

Yn unol â pharagraff 5(13C) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, gosodwyd fersiwn ddrafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(2).

**Enwi, dod i rym a dehongli**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Chwefror 2024.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 1988" yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

- 
- (1) 1988 p. 41. Mewnosodwyd paragraff 5(13A) o Atodlen 7 gan adran 154(2)(f) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1). Diwygiwyd paragraff 5(13A) yn ddiweddarach gan baragraff 64(14) o'r Atodlen i Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 (p. 53) ("Deddf 2023").
- (2) Annewidiwyd paragraff 5(13C) o Atodlen 7 gan adran 15(3)(d) o Ddeddf 2023.

**Newid i'r lluosydd ardrethu annomestig ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau â 1 Ebrill 2024**

2. Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau â 1 Ebrill 2024—

- (a) nid yw paragraff 5(5A) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn gymwys;
- (b) at ddiben paragraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, pennir mai 130.0 yw B.

*Enw*

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o  
Weinidogion Cymru  
Dyddiad